Papur ymgynghorol ar gyfeiriadau ymchwilio i'r Farchnad

Mesur Entrepreneuriaeth

Cyflwyniad

Atgyfnerthwyd cyfraith cystadlu gan Ddeddf Cystadlu t 1998 (CA98) a ddaeth i rym ar 1 Mawrth 2000. Mae CA98 yn gwahardd cytundebau gwrthgystadleuol ac arferion ar y cyd, ac ymddygiad sy'n gyfystyr â cham-drin safle trech, lle effeithir ar fasnach yn y DU. Fodd bynnag, cadwodd y Llywodraeth ddarpariaethau cyfeirio monopoli'r Ddeddf Masnachu Teg (FTA) ar y sail bod y pwerau hyn, yn enwedig cyfeiriadau monopoli cymhleth, yn caniatáu archwiliadau ar draws y farchnad gan y Comisiwn Cystadleuaeth (CC)[1].

Disodlir y darpariaethau FTA hyn gan ddarpariaethau cyfeirio archwiliad y Mesur Entrepreneuriaeth (y Mesur). Mesur i'r Swyddfa Masnachu Teg (OFT) yn fydd gwneud cyfeiriadau archwilio'r farchnad, ond, megis yn achos CA98 a darpariaethau cyfeirio monopoli'r FTA, mae awdurdod deddfu rhai rheolyddion sectorol yn cydredeg â'r OFT i wneud cyfeiriadau o fewn y sectorau dan reolaeth. Mewn amgylchiadau penodedig bydd y Gweinidog priodol yn cael gwneud cyfeiriad archwilio marchnad hefyd.

Pwrpas yr arweiniad hwn yw dangos sut mae'r OFT a'r rheolyddion sectorol[2] yn bwriadu cymhwyso darpariaethau'r Mesur mewn perthynas â gwneud cyfeiriadau archwilio marchnad. Nid yw'n ymdrin â chyfeiriadau Gweinidogol.

Nid yw'r arweiniad yn rhwymol ond bydd yn helpu busnes a'i gynghorwyr, a defnyddwyr i ddeall ar ba sail y gall yr OFT benderfynu bod cyfiawnhad dros gyfeiriad archwilio marchnad. Ni fwriedir iddo ddarparu fframwaith rhagnodol ar gyfer dadansoddi ac nid yw'r materion amrywiol chwaith yn rhestr hollgynghwysol o'r ffactorau a all atal, cyfyngu neu ystumio (cael effaith andwyol ar) cystadleuaeth, ac nid y rheswm lleiaf am hynny yw bod marchnadoedd a

[1] Er 1994 bu 20 adroddiad ar gyfeiriadau monopoli yr oedd a wnelo 14 ohonynt â monopolïau cymhleth.

[2] Dylid cymryd bod cyfeiriadau at yr OFT yn yr arweiniad hwn yn gymwys i'r rheolyddion hynny sydd ag awdurdodaeth sy'n cydredeg, onid yw'r testun yn nodi fel arall. Gweler paragraff 3.14 am enwau'r rheolyddion perthnasol.

syniadau am gystadleuaeth yn parhau i esblygu. Caiff yr arweiniad ei ddiweddaru fel y bo angen.

Mae'r arweiniad wedi ei drefnu fel a ganlyn: mae gweddill y bennod hon yn amlinellu pwerau'r OFT i wneud cyfeiriadau (y cyfeirir ato mewn man arall yn yr arweiniad hwn fel 'y prawf cyfeirio'); mae gweddill Rhan 1 yn disgrifio agweddau eraill ar y broses gyfeirio, sef pryd y caiff cyfeiriadau eu gwneud ac amryw bwyntiau ar y weithdrefn; ac mae Rhan II yn esbonio sut y bydd yr OFT yn cymhwyso'r prawf cyfeirio.

Pŵer i wneud cyfeiriadau

O dan [cymal 126] o'r Mesur, gall yr OFT wneud cais am gyfeiriad archwilio marchnad i'r CC lle bo ganddo le rhesymol i amau bod unrhyw nodwedd, neu gyfuniad o nodweddion, o farchnad yn y DU i nwyddau neu wasanaethau yn atal, yn cyfyngu, neu yn ystumio cystadleuaeth mewn perthynas â chyflenwi neu â chaffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau yn y DU eu mewn rhan o'r DU.

Dywed [cymal 126 (2)] fod nodwedd marchnad i gael ei dehongli fel cyfeiriad at y canlynol:

a) strwythur y farchnad dan sylw neu unrhyw agwedd ar y strwythur hwnnw
b) unrhyw ymddygiad (boed yn y farchnad dan sylw neu beidio) gan un neu ragor o bobl sydd, yng nghwrs busnes, yn cyflenwi neu'n caffael nwyddau neu wasanaethau yn y farchnad dan sylw, neu
c) unrhyw ymddygiad yn ymwneud â'r farchnad dan sylw neu â chwsmeriaid unrhyw un sydd, yng nghwrs busnes, yn cyflenwi neu'n caffael nwyddau neu wasanaethau.

Ychwanega [cymal 126(3)] fod 'ymddygiad' yn cynnwys unrhyw ddiffyg gweithredu (boed fwriadol neu beidio) ac unrhyw ymddygiad anfwriadol arall.

Mae'n bosibl na fydd bob amser yn glir a yw nodwedd marchnad sy'n effeithio ar gystadleuaeth yn strwythurol neu'n agwedd ar ymddygiad; er enghraifft, gall contractau cyflenwi neu drefniadau dosbarthu cwmni ychwanegu at rwystrau ar fynediad i farchnad. Fodd bynnag, nid yw'r cyfeiriadau ar wahân at strwythur ac ymddygiad yn [cymal 126] yn ei gwneud yn ofynnol i'r OFT ddweud a yw nodweddion neilltuol marchnad sy'n wrthrych cyfeiriad i ael eu hystyried fel nodweddion strwythurol neu fel rhyw agwedd ar ymddygiad.

Mae gan yr OFT y disgresiwn rhagor dyletswydd i wneud cyfeiriad archwilio marchnad lle ymddengys bod hynny'n cwrdd â'r meini prawf statudol. Cyn gwneud cyfeiriad, rhaid iddo ystyried y canlynol felly:
a) a oes ganddo le rhesymol i i amau bod cystadleuaeth yn cael ei hatal, ei chyfyngu neu ei hystumio mewn rhyw farchnad yn y DU eu mewn rhan o'r DU

b) ai nodwedd marchnad, neu gyfuniad o nodweddion, sy'n esgor ar yr effaith andwyol hon ar gystadleuaeth, ac
c) ai cyfeiriad archwilio marchnad i'r CC fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu.

Ystyrir pwyntiau a) a b) yn Rhan II o'r arweiniad hwn; trafodir pwynt c) yn y bennod nesaf o Ran
I.

Yn sgil cyfeiriad mater i'r CC yw penderfynu a yw cystadleuaeth yn cael ei hatal, ei chyfyngu neu ei hystumio mewn gwirionedd, ac (os felly) beth, os dim, y dylid ei wneud i ddatrys yr effaith andwyol ar gystadleuaeth neu unrhyw niwed i gwsmeriaid yn deillio ohoni (ar ffurf prisiau uwch, ansawdd is neu lai o ddewis o ran nwydau neu wasanaethau, neu lai o ddyfeisgarwch mewn perthynas â nwyddau neu wasanaethau mewn unrhyw farchnad yn y DU).